# Hybu a rheoli busnes gofal plant newydd

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn amlinellu’r gwaith o hybu a rheoli’r ddarpariaeth o leoliadau gwarchod plant a gofal plant newydd y mae gennych chi gyfrifoldebau rheoli drostynt. Mae wedi’i dylunio i gefnogi a hybu gofal, dysg, datblygiad a diogelwch plant.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. archwilio’r camau sydd eu hangen i sefydlu busnes gofal plant newydd, gan gynnwys asesu’r galw lleol a nodi’r math o wasanaeth gofal plant sydd ei angen ar deuluoedd
2. ymchwilio i strategaethau marchnata ar gyfer y busnes gofal plant, gan gynnwys dod o hyd i argymhellion o ran hybu a phennu ffioedd
3. hybu a marchnata’r busnes gofal plant er mwyn denu a dargadw teuluoedd
4. sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion busnes gofal plant, gan gynnwys asesiadau risg ac yswiriant
5. ymateb i ymholiadau am leoliadau a chydweithio â theuluoedd i drafod y gwasanaethau a gynigir ynghyd ag asesu eu hanghenion
6. rhannu gwybodaeth ac adnoddau gyda theuluoedd i ddangos ansawdd gofal a chymorth y busnes
7. sefydlu a chynnal y polisïau a’r systemau gofynnol ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd parhaus
8. datblygu a rheoli trefniadau cytundebol, ynghyd â chasglu ffioedd
9. sefydlu systemau ariannol sy’n sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw
10. sicrhau bod cyflenwad o adnoddau chwarae, ac adolygu eu hansawdd a’u haddasrwydd
11. gwerthuso llwyddiant y busnes o ran cyflenwad a galw
12. casglu adborth gan deuluoedd ynghylch y gofal plant sy’n cael ei dderbyn
13. gwerthuso adborth a nodi ffyrdd y gellid gwella’r busnes
14. adolygu a diweddaru polisïau, ffioedd a threfniadau talu yn unol ag amodau’r farchnad ac adborth
15. rhoi’r wybodaeth sy'n ofynnol i eraill
16. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu a rheoli busnes gofal plant newydd
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu a rheoli busnes gofal plant newydd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae ymchwilio’r camau ar gyfer sefydlu busnes gofal plant, gan gynnwys strwythur cyfreithiol, gofynion cofrestru, a chynllunio busnes
2. sut mae asesu’r galw am wasanaeth gofal plant yn lleol ynghyd â chanfod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol
3. y gwahanol fathau o wasanaethau gofal plant sydd ar gael, a sut i benderfynu pa un sy'n bodloni anghenion y gymuned orau
4. strategaethau marchnata sy’n addas ar gyfer lleoliadau gofal plant newydd, gan gynnwys dulliau digidol a chymunedol
5. technegau marchnata ar gyfer prosesu a chyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol i deuluoedd a’r gymuned ehangach
6. sut mae datblygu strwythur prisio yn seiliedig ar amodau’r farchnad leol a chostau’r gwasanaeth
7. sut mae meincnodi polisïau ac arferion yn erbyn darparwyr eraill yn eich ardal
8. sut mae sicrhau bod gwybodaeth am fusnes gofal plant newydd ar gael
9. pwysigrwydd brandio a chyfathrebu clir i ddenu a dargadw teuluoedd
10. sut mae cynnal asesiadau risg a rhoi mesurau ar waith i atal a lleihau peryglon yn yr amgylchedd gofal plant
11. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn busnes gofal plant newydd
12. sut mae meithrin perthynas waith gadarnhaol â theuluoedd
13. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth reoli busnes gofal plant newydd
14. dylanwad diwylliant a chefndir, a sut y dylent fod yn bresennol mewn amgylcheddau gofal plant
15. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol drwy amgylcheddau gofal plant cadarnhaol
16. yr ystod o bolisïau sydd eu hangen ar gyfer busnes gofal plant newydd
17. sut mae ymwneud â dysgu a datblygu arferion gorau a chyfredol
18. pwrpas a chynnwys contractau gofal plant
19. egwyddorion cadw cofnodion ariannol a chyfrifoldebau ariannol sy’n gysylltiedig â chyflogaeth
20. sut mae cadw cofnodion incwm a gwariant yn gywir ac yn gyfreithiol
21. y mathau o wybodaeth sydd eu hangen gan deuluoedd, a sut i sicrhau ei bod

yn gywir, yn gyflawn ac yn hygyrch
22. sut mae datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer storio, rhannu ac adalw cofnodion cyfrinachol a data personol yn ddiogel
23. sut mae sicrhau bod adnoddau a deunyddiau'n briodol yn ddatblygiadol, yn gynhwysol, yn gynaliadwy ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch
24. ffyrdd o werthuso gan ddefnyddio mesurau perfformiad
25. sut mae casglu, adolygu ac ymateb i adborth gan deuluoedd
26. theorïau sy'n berthnasol i hybu a rheoli busnes gofal plant newydd
27. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu a rheoli busnes gofal plant newydd
28. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu a rheoli busnes gofal plant newydd, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu a rheoli busnes gofal plant newydd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD373

Hybu a rheoli busnes gofal plant newydd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD373 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Rheoli busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |